

**LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR**

**Fairweather Works, Ponthenri (adnabu'r ffatri hon hefyd fel John Patterson)  
(Tua 1954 – 1957)**

**Cyfwelai: VSW004 Nanette Lloyd**

**Dyddiad: 15.11.13**

**Cyfwelydd: Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru**

*There is an English summary at the end of the Welsh text*



**Ewn ni nôl i'r dechre (eich bywyd), os allech chi weud 'tho fi beth yw eich enw chi?  
Nawr?**

**Ie, eich enw chi nawr.**  
Nanette Lloyd.

**A beth o'ch chi cyn priodi?**  
Nanette Evans.

**A ydych chi'n cofio eich dyddiad geni?**  
Seventeenth of the eighth month 1937.

**A ble gesoch chi'ch geni?**

Yn New Road (Pontyberem), yr hewl o fla'n hon, No.7.

**A ble o'dd ych tad yn gwitho?**

(Gwaith glo) Pentremawr.

**Beth o'dd e'n neud 'na?**

Official, fireman. Fireman o'n nhw'n galw fe achos he had a whole district he was in charge of.

**O'dd jobyn itha da 'da fe te?**

O'dd, o'dd. Ond ti'n gwbod beth o'dd e, the better qualified the job, o't ti ddim yn ennill yr arian o'dd y bois ar y glo yn ennill, ti'n deall fi. O'n nhw'n ennill lawer fwy na'n dad i, rhai o' nhw, ond dim nhw i gyd.

**O'dd e'n lico 'i waith?**

He did. He took it serious.

**O'dd ych mam wedi bod yn gwitho?**

Do. Yn siop fach papur i Anti.

**A ble o'dd y siop bapur te?**

Drws nesa i'r hen syrjeri yn Pontyberem.

**O'dd siop bapur fan'na?**

O'dd. Meredith. Meredith's paper shop. A rownd fawr 'da'n nhw'n y bont twel.

**00.01.33: Pryd o'dd hi'n gwitho 'na te?**

O'r ysgol.

**O'r ysgol?**

Nes bod hi'n priodi Dadi.

**Ie, a gwplodd hi wedyn.**

I briodi Dadi.

**00.01.40: A o'dd brodyr a chwirydd 'da chi?**

'Da fi? Tri brawd.

**A ble o'ch chi'n ffito mewn, chi'n gwbod, pwy o'dd yr ifanca?**

Second.

**00.01.50: A ble ethoch chi i'r ysgol?**

Pontyberem. Infants gynta ble ma'r Jehovahs nawr, y sgwâr wedyn 'nny. A 'na pryd da'th yr ysgol fach gynta, 'annexe' ma' nhw'n galw fe nawr, lawr y gwaelod.

**Ar safle'r ysgol lle mae e nawr?**

Hyn. 'Annexe' ma' nhw'n galw'r part lle o'n i'n mynd. That was the first little school. Only for the village.

**00.02.16: O’ch chi’n lico ysgol?**

O’dd dim ots ‘da fi. I didn’t mind it. We had to do it. O’dd dim choice ‘da ti pyr’nny. O’t ti ddim yn cael mitshan gyda dy parents ta p’un ‘nny.

**00.02.29: Pam o’ch chi’n ysgol beth o’ch chi’n meddwl byddech chi’n neud ar ôl gadael te?**

No idea. No idea.

**00.02.34: O’ch chi eisiau priodi millionaire?**

Nagon. O’n i ddim yn moyn priodi. O’n i’n gallu gwnïo. Ive been very, very good with my hands, and sewing, ti’n gwbod. Beth o’n i’n moyn o’n i’n neud i’n hunan.

**Pwy ddysgodd chi te?**

Ysgol. A’n fam. O’n i’n cwiro da’n fam bob prynhawn dydd Sul, os o’n i gatre. ‘Na pham o’n i ddim yn dod gatre. O’n i’n mynd i Ysgol Sul, ac o’n i’n mynd lan tŷ’n famgu wedyn i ga’l te, fel bod fi ddim yn mynd gatre i gwiro.

**Cwiro dillad y teulu?**

Nage, y boys, socs y boys. O’dd tri brawd ‘da fi twel, yn ysgol. A ti’n gweld wool o’dd y cyfan pyr’nny, dim neilon.

**O’n nhw ddim yn para, o’n nhw’n rwto o’n nhw.**

O’n nhw’n ca’l socs newydd i fynd i ysgol ar ddydd Llun, oedd yr heel fan’na erbyn dydd Mercher. Terrible cofia.

**00.03.21: Pwy oedran o’ch chi’n gadel ysgol te?**

Fifteen.

**00.03.27: Dim fan hyn. Ethoch chi i ysgol arall ar ôl gadel fan hyn?**

Naddo, dim ond yn y Bont. O’n i’n dwp twel.

**O’ch chi ddim. Sa i’n credu ‘na am funed.**

Na, sa i’n dwp. Fi’n gallu neud popeth. Fwy da ‘da’n ddwylo ti’n gwbod.

**00.03.40: So o’ch chi fifteen yn gadel, shwd o’ch chi’n twmlo am gadel ysgol te?**

I didn’t mind it at all, I was quite happy. Achos o’dd ffrind i fi wedi mynd i weithio mewn restaurant fawr yn Llanelli, Alegri’s. Ac o’n i’n mynd i fynd fa’na ar ei gôl hi. A ti’n gwbod y siop ‘na, dim ond merched Pontyberem o’n nhw’n moyn.

**Pam ‘nny te?**

Achos they were good workers.

**00.03.59: Ac ethoch chi fan’na?**

Do.

**A shwd beth o’dd y gwaith fan’na?**

Gwd. A o’n i moyn mynd i witho tu ôl y cownter. Waitress o’n i twel. O’n i moyn mynd i witho tu ôl y cownter ond o’n nhw’n pallu gadel fi i fynd. A gwpl i ‘na, achos dodo nhw i ‘na ar ôl i Mami increaso ‘yn iwniform i. O’n i fod i byrnu overall wen wedyn ‘nny i fod tu

ôl y cownter. They refused to let me to go there and they put me there to punish me. So gwplles i 'na a ethes i i witho'n siop shoes yn Market Street.

**00.04.27: O'dd e'n ddigon rhwydd ca'l jobyn arall te?**

Bobman pyr'nny. Os o't ti wedi bod yn gwd, o'dd gwd reference 'da ti eniwê. Meddyla, sbeito, ti'n gwbod.

**00.04.37: Mae'n dibynnu lot pwy sy'n charge 'na.**

RM Lewis, shoe shop, opposite y Vince cinema.

**00.04.43: Ond fel gethoch chi'r jobyn 'na te?**

Wel, o'dd eisiau rhywun 'na.

**Ond fel o'ch chi'n ffeindio mas wedyn, bod eisiau rhywun?**

O't ti'n mynd i Unemployment place, yn Llanelli ti'n gwbod.

**So gwplloch chi'n y caffi gynta?**

Do, do. Bues i gatre cyn bod fi'n ca'l dime. So ti'n ca'l dim byd am six weeks. Wedyn 'nny, y nhw ffindodd e, bod ishe rhywun fan'na. Ac ethes i lawr, and I had it straight.

**00.05.05: Beth o'n nhw'n gweud gatre, bod chi wedi cwpla'n y caffi. O'dd ots?**

Nhw wedodd wrtho i. Finish then, if that's the way they feel, if that's the way they treat you. Achos ti'n gwbod o'dd 'yn fam i wedi pyr'nny rhagor. O'dd black iwnefform o'dd 'da ti ac apron fach wen. Wel, os o't ti'n mynd tu ôl y cownter o'dd rhaid i ti ca'l overall wen. Ac o'dd pethe fel 'na'n bryd iawn pyr'nny. Very expensive. Ac o'dd yr arian yn fach, fach twel. Weekly yn ten bob. Ten bob yn y poced.

**Yn y caffi nawr ife?**

Nage. One pound ten shillings o'n i'n ennill. So o'n i'n ca'l ten bob weekly. Ten bob arian poced ac o'n i'n gorfod pyrnu sane'n hunan. So five shillings o'dd 'da mam ar ôl i gadw fi, when you think about it. It's hard.

**00.05.52: A shwd o'dd e'n y siop shoes wedyn?**

Oce, oce. A ti'n gwbod o'dd half day bob dydd Mawrth, o'n i'n seiclo wedyn 'nny i Bonthenri, achos o'dd 'yn wha'r yng nghyfreth, Sally'n gwitho'n y ffactri. Ac o'n i'n mynd mewn, ac o'n i'n gallu gweld beth o'n nhw'n neud, ac o'n i'n gwbod bod nhw'n ennill arian da. Ond o'dd rhaid i ti sefyll i ga'l ford i brinto arno. O'n i ddim yn moy'n mynd i'r rwm top, "finishing".

**So pwy o'dd yn gwitho 'na'n barod o'ch chi'n nabod?**

Sally, 'yn whar yng nghyfreth. Sally Morgans.

**O'dd hi ar arian da te?**

O'dd, yn neud yr un jobyn â fi, ond o'dd hi ddim yn gwitho mor galed â fi pan ethes i 'na, ar y part 'na.

**So pryd ethoch chi i'r ffatri 'na te? (Fairweather Works)**

Paid â gofyn i fi. Gronda nawr, ges i ngeni yn 1937, so o'n i'n fifteen yn dod mas o'r ysgol. Bues i'n gwitho am two years rhwle arall, chi'n gwbod ble fi wedi gweud 'tho ti. Cownta ti

fe nawr, achos ti'n gallu cownto'n well 'na fi, fi'n siwr. A wedyn ethes i i Ponthenri ffactori. Gweda bod fi'n sixteen.

**Seventeen ife?**

Seventeen walle.

**O'ch chi'n ifanc iawn te.**

O'n, o'n. I fynd i witho'n ffactori yn enwedig.

**00.07.10: Ond fel ethoch chi ymbytu cael gwaith yn Ponthenri te?**

Ie, mynd lawr a half day o'r shop shoes, ar y beic, seiclo lawr. Ac o'dd hi'n gwitho 'na twel.

**00.07.18: Ond o'dd rhaid i chi fynd i ofyn i rywun wedyn?**

Wel, o'n nhw'n gwbod twel o'dd eisiau merched. Dere mewn i ti ca'l gweld e wedodd hi, and so I did.

**00.07.27: Beth o'dd enw'r ffactori pyr'nny?**

Fairweather Works.

**A beth o'n nhw'n neud 'na?**

Tablecloths. A dodo nhw fi, a'n partneres, o't ti'n gwitho'n peire twel, ar y towelling. We started that. A o'dd e'n rhoi basic two pound ten shillings a day i ni am wneud, 'do as much as you can, but I want it perfect'. 'Na beth o'dd e'n gweud 'tho fi. Mr Buttle.

**Beth o'dd yn digwydd os o't ti'n neud mistake te?**

O't ti'n cael seconds. O't ti'n cael seconds yn everything. O'dd thirty two tablecloths 'da ni'n un ford fi'n credu'n printo. Os o't ti'n ca'l sgitad ne rhwbeth it was a second. Ac o'dd hwnna'n dod mas o dy bai di.

**O'dd e?**

O'dd, o'dd.

**Ma' hwnna'n galed ondywe?**

Wel, o't ti ddim yn neud cyment â 'na twel. O't ti'n treial bod yn garcus. Wel, o't ti'n gorfod bod yn garcus wedyn 'nny twel o't ti? Sgits o'n i'n galw nhw. O'dd y sgwiji yn erbyn a'r paent yn tasgu. 'Na beth o'n i'n galw fe o'dd 'paent'. But dye o'dd e twel. But it looked like paint.

**00.08.32: Ydych chi'n cofio'r diwrnod cynta' dechreuoch chi gwitho?**

Not really. Na. Achos rownd y lle o'n i. Na! Geso i'n ddodi ar jobyn Maureen Rees. Machine, safio nhw stopio'r machinery, o'n i'n gwnïo y stwff, o'dd yn hongan mas o'r trolis. Lwcus, o'n i ddim yn cofio 'na nawr twel. Safio nhw stopo'r machines mowr, o'dd y stwff yn mynd trw'r machines i gyd twel, all day.

**00.09.03: Pwy o'dd yn dangos i chi beth i neud te? O'dd training i gael?**

Trevor, Trevor Hughes. Ma' fe'n y llun 'na. Vivian Hughes. Vivian Hughes nege Trevor Hughes.

**Fe o'dd yn dangos i chi?**

Ie, he was the foreman.

**Ond faint o amser o'ch chi'n ca'l i ga'l dysgu'r job achos fel o'ch chi'n gweud, o'dd y ffactori'n mynd drw'r amser.**

O'dd, o'dd. O'n nhw'n dishgwl i chi bigo fe lan weddol o gloi. And I could. O'n i ddim yn dwp twel.

**00.09.36: Na, fi'n gwbod 'na. O'dd rhai 'na o'dd ddim yn gallu pigo fe lan te?**

Na, sa i'n credu. We all did.

**00.09.42: O'ch chi ddim yn ca'l test cyn mynd mewn i ddangos?**

Nagon, nagon. O'dd scholars yn neud yr un job â fi fan'na. O'r Gwendraeth. A o'dd yr arian yn gwd.

**00.09.56: Faint o'dd yr arian am wythnos te?**

On a good week, o'n i'n dod gatre â dros twenty pound. A twenty pound pyr'nny, watsha di nawr, one pound ten shillings o'n i'n ca'l yn y caffi, a bytu two pound yn y shoe shop. A o'n i'n dod a eighteen pound ar ben hwnna o fan'na. Beth bydde ti'n neud? A nage 'na. Os o'n i'n hwyr o'n i'n gallu seiclo lawr.

**00.10.20: Fel o'ch chi'n mynd i'r gwaith te?**

Ar y bys. James's.

**Fel service bus ife?**

Lawr y steshon a o'n i'n jwmpo off lan yn Myrtle Hill, ti'n gwbod ar ben y wal, a cerdded lawr. A ti'n cofio pyr'nny o'dd y tip yn lloggi. It was terrible.

**Gwynt y tip ife?**

Fi'n gallu cofio hwnna. I always remember that.

**00.10.40: O'dd e fel steiff o'dd e?**

It was. You could see it. O'dd e fel veil dros y pentre.

**Ac o'dd e'n eitha agos i'r ffactori.**

O'dd e ddim yn bell twel. Er, o'dd y paent a'r thinners 'da ni'n y ffactori, o'n i ffaelw gwynto fe. You could smell that first os ti'n deall fi.

**Achos o'dd hwnna mor gryf.**

O'dd hwnna'n lladd e.

**00.10.57: O'dd gwynt gyda'r paent a'r thinners te?**

O'dd. It wasn't a healthy place to work.

**00.11.02: Beth o'dd y conditions fel te?**

Not bad. Wel, ti'n gwbod beth yw e. I hadn't seen different. Os ti'n deall fi. O'dd rhai o'r merched 'na, o'n nhw wedi.

**Ble o'n nhw wedi bod cyn 'nny?**

Optical cyn priodi. Priodi a mynd fan'na wedyn, ti'n gwbod fel ma' that's life. O'n i ddim wedi gweld dim byd fel 'na nes bod fi'n mynd fan'na, and I loved it. And I worked hard.

**00.11.30: Ond ar wahan i'r arian, achos wedoch chi o'dd yr arian yn grêt, ar wahan i ni beth o'ch chi'n lico 'na? O'ch chi'n gweud bod chi'n joio.**

Popeth. It wasn't boring. It wasn't like an ordinary factory. O't ti'n cael patterned table cloth, and a different screen for every colour that was in that pattern. A sgwjjis mawr 'da ni'n pwsho'r paent, paent o'n ni'n galw fe, dye o'dd e, nôl a mla'n.

**00.11.56: Ond o'dd e'n waith skilled te?**

And heavy. Achos o'dd y sgrîn yn drwm twel. A'r paent, a'r sgwiji ynddo fe.

**00.12.03: Beth o'ch chi'n neud o'dd yn drwm?**

Ôl y rowls wedyn 'nny o material i layo fe ar y ford hir hyn. Mwy amal na dim o'dd y troli'n fishi rhwle arall. We were carrying it. Geso i periods bob wythnos am bwytu whech mish. Ac o'dd 'yn fam yn gweud hi, 'you've got to finish, you've got to finish'. Ac o'n i'n joio ac o'n i'n gwitho'n galed.

**00.12.28: O'ch chi'n meddwl bod chi'n ca'l y periods achos y cario 'na?**

Because of the weight.

**O'dd hwnna'n digwydd i rywun arall?**

O'dd. Fi'n credu o'n nhw'n ca'l e'n drwm. But they weren't having it constant, 'run peth â fi. Wel, o'n i ddim wedi bod yn regiwl ar erio'd cyn 'nny twel. O'n i ddim yn ddigon hen eniwê. Fel, 'na fe. Dechreues i'n ddigon ifanc.

**00.12.46: O'ch chi fod i gario'r rowls te?**

O'n nhw'n dishgwl i ti achos o'dd y boys o'dd yn gwitho 'na o'dd wedi neud y trolis bach hyn i ni ca'l pwsho fe arno fe.

**00.12.54: Beth os o'dd rhywun wedi gweud, 'o ma' fe'n rhy drwm'.**

Well, go somewhere else.

**Ma' hwnna'n galed ondywe?**

Nage 'na. Y rwm top, o't ti ddim yn ca'l 'piece work' yn y rwm top.

**Beth o'n nhw'n neud yn y rwm top?**

Y finishing, y packaging, cutting, sewing. O'dd y cutters, y sewers ar piece work, a ni a sa i'n credu o'dd neb arall yn.

**00.13.17: O'ch chi'n hapus â piece work.**

O'n. O'n i wedi mynd man 'na i ga'l arian i fi a Mami, ac o'n i ddim yn ca'l dime'n fwy. Yes, she used to give me some, gweda ten bob.

**00.13.28: Gwedwch wrtho fi nawr beth o'dd yn digwydd pan o'ch chi'n ca'l ych pai?**

Dod gatre â fe.

**O'ch chi'n agor e ych hunan?**

Nagon. Fel 'na o'n i. Ti'n gw bod y pai cynta geso i, o'n i ddim yn dishgwl arno fe, o'n i ddim yn sieco fe, Mami o'dd fod i agor e. Ond o't ti'n gallu sieco'n y diwedd, o't ti'n gallu .. y thing ar y side, o'dd y leaves y papur. O't ti'n gallu gweld y leaves twel.

**00.13.49: Shwd o'ch chi'n twmlo bod chi'n ennill yr holl arian hyn?**

Very proud.

**Ond o'ch chi ddim yn gweld lot o'r arian.**

Nagon. Ond o'dd yn fam yn cadw bod fi'n ca'l. Ti'n gwbod pam? O'n i'n smoco. Ac o'dd hi ddim yn bodlon. O'dd hi ddim yn mynd i roi lot o arian i fi wedyn 'nny o'dd hi.

**00.14.09: Ond o'dd smoco ddim yn costi cyment pyr'nny?**

Nago'dd ond o'dd hi ddim yn bodlon bod fi'n neud e.

**00.14.13: Faint o arian poced o'ch chi'n ca'l te?**

Punt. Yes. Ond cofia o'dd punt yn mynd yn bellach na beth ma' fe'n mynd heddi twel.

**00.13.24: Faint o bobol o'dd yn gwitho 'na pyr'nny wedech chi?**

Ten tables, we were twenty girls on the printing. A oedd dou bâr, dou bâr a un a pump wedyn 'nny yn y man top le o'n nhw'n softeno, a bleacho a golchi'r material o'dd yn dod mewn, fel sacking. And they were doing it until it became thin and beautiful linen. A Mr Thomas yn Victoria Road o'dd yn neud y machines mowr, golchi, a smwddo a doddi fe'n rowls. Y machine o'dd yn neud 'na wrth gwrs, ar ôl y boys i olchi fe a softeno fe a bleacho fe.

**00.15.06: Y boys o'dd yn neud hwnna i gyd?**

Ie, ie. A fi wedyn 'nny, pan ddechreues i 'na, machine Maureen Rees ges i yn mynd rownd i safio stopo machines i ddechre fe off. O'n i'n joino'r materials so that it could go constant all day, ti'n deall fi.

**00.15.20: O'dd hwnna'n beryglus wedyn?**

Na. Not i fi. Wel, ti'n gwbod ar bwys o'n i'n neud e nege, next to where they were stocked up ready.

**00.15.33: Ond o'dd rhai'n ca'l accidents te?**

I had a bad one. Ti'n gwbod y machine hyn o'n i'n gweud 'tho ti nawr, mobile o'n i'n mynd rownd. I went to pull it when I started one morning, and I was thrown o fan hyn is gro's yr hewl. Lwcus bod fi ddim wedi mynd mewn i'r machines. I had a bad accident there. A nece 'na, dim ryber. Dim ryber o'dd ar 'yn dra'd i. Rhoiodd e arian, y manager, y diwrnod ar ôl 'nny, 'go and get yourself a pair of wellies'. Well, I should have had them when I was put on the job.

**00.16.04: Gethoch chi ddim compo te?**

Na, wel, o'n i nôl yn gwaith yn dou ddiwrnod. O'n i ddim yn moyn colli.

**00.16.11: Ond o'dd bai arnyn nhw nago'dd e, bod nhw ddim wedi cito chi mas?**

O'dd. O'dd. And anybody's talk about an Union ... We didn't even have an Union.

**00.16.20: Nagodd e? Beth o'ch chi'n neud te, os o'dd problem?**

O'dd un o ni'n mynd mewn i'r offis i complaino. And it was seen to. Ac o'n nhw'n gweud 'anybody starts talking about an Union, and you're out'. O'dd dou ffactri, un yn Birmingham a un yn Ponthenri. Ac o'n ni gyd yn neud fwy o waith a gwell gwaith na beth, they shut the one in Birmingham. And they kept Ponthenri open. Cheap labour twel.

**Falle o'ch chi'n conan llai?**



Ie, a cheaper labour.

**Reit.**

‘Na beth o’n i’n clywed. Y bois y loris o’dd yn gweud ti’n gwbod, beth o’dd yn dod lawr â stwff i ni a mynd nôl a stwff ti’n gwbod.

**00.16.55: Byddech chi wedi ca’l dechre Union te, os o’ch chi’n moyn?**

Anybody start talking about an Union, you were out.

**00.17.01: Pwy o’dd yn gweud ‘na te?**

It was a known thing. We had no Union.

**O’dd Unions erill i ga’l. O’dd Union yn y gwaith (glo) pyr’nny, yn Pentremawr o’dd e?**  
O’dd. Every other industry.

**Shwd o’ch chi’n twmlo am ‘na te?**

I dynon silocotic o’dd Ponthenri wedi cael ei neud i. They wouldn’t have been able to work there because of the fumes y paent.

**00.17.24: Jiw, o’n i ddim yn gwbod hwnna. O’n nhw’n meddwl taw gwaith ysgafn i nhw dyle fe fod te? ‘Na beth o’n nhw’n credu?**

Supposo fod twel. That’s what it was made for. Built for. Silocotic.

**00.17.38: Beth o’dd, chi’n gwbod o’dd dynon a menywod yn gwitho ‘na.**

Ond dim lot o ddynon.

**Dim lot o ddynon.**

Fi’n gweud ‘tho ti, dou. Tony Lewis, a Godfrey, Godfrey Tucker. Tony Lewis o’dd ar y machines. Mr Thomas o’dd ar y machine mowr. Berisford o’dd ar y machine arall yn glazo, a rowlo fe lan cyn bod e’n ca’l ei dorri, i wniö.

**00.18.06: Ble o’n nhw wedi bod yn gwitho cyn ‘nny te? O’n nhw ddim wedi bod yn y gwaith (glo).**

Optical a pethe. Ond o’dd rhai wedi dod yn ifanc twel. Y colour house, neud y dye. O’dd bytu tri yn gwitho mewn fan’na. Mab y manager o’dd un.

**00.18.21: Ife’r gwaith trwm o’n nhw’n neud?**

Na, o’dd y merched yn gwitho’n fwy trwm na’r bois. Achos o’n ni’n printo twel. O’dd sgrin ‘da ti i gario.

**O’dd dynon a menywod yn ca’l yr un pai te?**

Na. O’dd y printers twel, which we had the heavier work, o’n i’n cario’r sgrin a’r paent, a’r sgwiji, printo. We were the only ones that were earning good money. Wel, ‘na pham o’n i wedi mynd ‘na.

**00.18.46: Achos chi’n gwbod mewn rhai llefydd o’dd dynon yn ca’l mwy na menywod o’n nhw.**

The wage sometimes, yes, yes.

**00.19.00: O'ch chi'n gweud o'ch chi'n mynd â pai gatre, ac o'ch chi'n ca'l arian da. Shwd o'dd ych tad yn twmlo te?**

Never asked him. Gwrandda, o'dd tri crwt ar 'yn ôl i. O'n nhw'n falch o fe.

**Ond chi'n gwbod o'dd dynon pyr'nny, pride ife? O'dd ych tad ddim yn twmlo..**

He was proud of his job, because he passed an exam to have that, ti'n deall fi. He was proud of that.

**00.19.25: Ond o'dd e ddim yn ennill cyment â chi.**

Wel, o'n ni'r un peggings. And that was very good money. One pound ten shillings 'n i'n gwitho am yn y shop shoes, a yn y caffi. A meddyla di nawr reit, ten bob pocket money. A o'n i'n gorffod pyrnu sane 'yn hunan. Ten bob weekly for the bus. Ten shillings o'dd 'da'n fam i i gadw fi, ar ôl i fi ddod mas o'r ysgol. O'dd hi moyn i fi fynd i Tech twel.

**O'dd hi?**

Achos o'n i'n gwd yn gwnïo, made all my own clothes.

**00.20.00: Pam ethoch chi ddim i Tech te?**

O'n i moyn mynd i ga'l arian. I knew the circumstances. O'n i ddim yn llwm, o'n i ddim yn mynd heb ddim byd. Ond o'dd fwy o eische. A'th 'yn frawd i'r Navy twel. Da'th e mas o'r ysgol. A blwyddyn yn henach na fi. Ond o'dd dou ar 'yn ôl i o'dd e.

**00.20.19: So 'ch chi'n twmlo bod ishe chi fynd i witho?**

I needed money. Whatever it was, I needed money.

**00.20.24: O'ch chi ddim yn twmlo os elech chi i Tech gynta bydde gwell siawns 'da chi?**

O'dd hi moyn i fi fynd i gwnïo and I wouldn't go achos o'dd y ferch drws nesa ond un i fi'n mynd 'na. Nagon i ddim yn moyn mynd 'na.

**Ond o'dd deleit gwnïo 'da chi o'dd e?**

I could do everything anyway, still can.

**00.20.43: A chi'n edrych nôl nawr, chi'n hapus nawr bod chi wedi neud y decision iawn?**

Yes, I think so. O'n i moyn arian i'n fam a'n dad. I'n fam te.

**Sdim gwell job na 'na os e?**

Na, na. I was happy, contented. O'n i ddim yn mynd mas cyn 'nny. Ac o'n i'n cwrdd yn y nos ac o'n i'n mynd i bob dance.

**Pwy amser o'ch chi'n mynd yn y bore i'r gwaith?**

Dala bys ten past seven.

**00.21.11: O Bont fan hyn?**

O'r steshon. James's. Lawr is y wal yn Ponthenri, ac o'n i'n cerdded wedyn 'nny i'r ffactri.

**O'dd lot o fan hyn yn mynd lawr te?**

Na, na. Dim ond fi a un merch arall o'dd yn mynd 'na ac o'dd hi ddim yn jwmpo ar y bys yr un man â fi.

**Ble o’dd y lleill yn mynd o’dd ar y bys? O’n nhw’n mynd i ffactoris erill?**

O’dd lot yn mynd i Llanelli, i Felinfoel, Morris Motors.

**00.21.37: A shwd beth o’dd gwitho ‘na o ran ca’l sbort?**

Very, very good company. Very, very good company, a neb yn cymryd advantage o neb. O’dd pawb yn neud ei waith. And respect.

**00.21.53: Pwy o’dd yn edrych drosto chi?**

Vivian Hughes, sydd yn y llun ‘na. He was our foreman. A Buttle o’dd y manager. Ti’n cofio fe?

**Fi’n cofio sôn amdano fe.**

O’dd e’n byw yn y tai ‘na opposite y fynwent.

**00.22.09: Ac o’ch chi’n dod ‘mla’n yn net ‘da nhw?**

Pawb. There was no nastiness or animosity. Fi’n cofio’n fam yn gweud ‘tho fi, achos o’n i’n wyllt, o’dd natur wyllt ynddo i, ‘Remember now,’ wedodd hi, ‘you’re going to work with a lot of women’. Saesneg o’n i’n tŷ twel. ‘You’ve got to behave Nanette and control that temper.

**Gwrandoch chi arni ddi?**

Do. I did. Dim ond unwaith colles i fe a pren ‘da ni a bachyn arno fe i godi’r material o’n i wedi printo. O’dd e lan wedyn ‘nny yn sychu. Ti’n gwbod y llunie, o’dd llunie pob part o’r ffactri arno fe, every part. Fel hyn wedyn ‘nny, a’r things yn hongan lan i sychu.

**Rheina o’dd yn yr Evening Post wedoch chi ife?**

Fi wedi whileo.

**Falle allwch ga’l gafel ar rai o man’nny ‘to.**

They must have been cleared out. Fi wedi symud o le o’n i. New Road o’n i. Fan ‘na ges i ngeni, and I’ve lived there, and only from there to by here I’ve been. A bues i tamed bach yn Ponthenri, yn Victoria Road. O’n i’n briod â boi o Bonthenri twel.

**00.23.15: O’ch chi’n gweud bod chi wedi colli’ch natur, tymer unwaith, beth ddigwyddodd?**

Showan off o’dd hi. Achos o’dd hi wedi bod ‘na o’n fla’n i twel. A o’dd hi’n codi fe ei hunan. A o’t ti ddim fod i. ‘Ydw i’n gwitho ‘da ti, neu effing gwitho ‘da ti ne bido’, a swingses i’r pren. Allen i ‘di dala hi. O’n i ddim yn treial bwrw ddi ond I threw it.

**O’dd e wedi bwrw ddi te?**

Na. Se fe wedi bwrw twll ynddi ddi. A wedodd hi wrth ‘yn fam. O’dd hi’n caru â’n frawd twel. Ma’ ddi’n briod â’n frawd nawr.

**00.23.44: O’dd pawb yn nabod ei gilydd ‘na te?**

Yes, well we went to school together. Ti’n gwbod o’dd pob pentre yn dod i ysgol y Bont, last few years.

**O’n nhw? O’n i ddim yn gwbod ‘nny?**

A ti’n gwbod o’n i fel ‘na, yn dene, dene, dene.

**Chi'n itha tene nawr.**

Sa i'n dew ond sa i'n dene. Gronda nawr, fi ar steriods cofia. Not bad considering I'm on that. Achos asthma. Des i gatre o'r ysgol, pan ethes i lawr i ysgol waelod, y senior nawr. 'Mami, do you know these, they're nearly in the inkwells'. A o'dd 'yn fam yn wherthin ha, ha, ha. 'Don't say things like that' wedodd hi. Ond o'n i'n fflat. Ond o'n nhw mor busty ti'n gwbod. 'They're nearly in the inkwells' wedes i wrthi ddi ac o'dd Mami'n adrodd hwnna'n amal.

**00.24.36: Pam o'ch chi'n gwitho'n y ffactri, o'dd dim lot o ddynon 'na, ond o'dd rhai'n caru â'i gilydd?**

Well, that's where I met my husband. Parodd hwnna ddim yn hir.

**Naddo fe?**

Naddo.

**Ond fan'na o'ch chi wedi cwrdd â fe?**

Ar ôl priodi ethes i i fyw fan'na, gyda fe a'i fam. It was bad enough. Nothing would have worked. My father called, he was teaching my brother to drive. So hwn ar hwnna (recordydd) nawr?

**Alla i stopo fe.**

**00.25.16: O'dd lot o'r menywod o'dd yn gwitho 'na pyr'nny, o'n nhw'n rhai priod?**  
O'dd. Mixture.

**00.25.21: Pwy oedran o'n nhw wedyn, wedech chi?**

Roughly mine and older. Not alot younger.

**00.25.46: O'dd y menywod, gwedwch chi bod nhw'n priodi, o'n nhw'n cwpla'n y gwaith?**

Not really.

**00.25.54: Beth o'dd yn digwydd pan o'n nhw'n ca'l plant te?**

Wel, ti'n gwbod beth o'dd e. In those days, os o'dd dy fam 'da ti o'dd hi'n carco i ti, os o't ti'n lwcus.

**Ond o'dd dim maternity a pethach fel 'na i ga'l pyr'nny o'dd e?**

Nago'dd, not to my knowledge.

**So o'ch chi'n mynd i gael y babi, o'n nhw'n dod nôl wedyn?**

I presume so. I can't remember. Ti'n gwbod beth o'dd e, o'n i ddim yn talu lot o sylw. Achos we were in a younger group. Printers o'n i. It was heavy work. Se ti'n pregnant se ti wedi colli fe.

**00.26.24: Beth am y big bosses te? Pwy o'dd bia'r holl lle?**

Buttle. Fe o'dd y manajar. A Trevor wedyn 'nny o'dd yn superviso ni. A office workers o'dd y rest i gyd.

**00.28.37: O'ch chi'n ca'l social life gyda'ch gilydd wedyn? O'ch chi'n mynd mas, mynd i dansys gyda'r merched?**

O'n dansys, dansys.

**Gyda merched o'r ffactri?**

Wel, o'n i'n cwrdda 'na twel. Pontyberem, Ponthenri a Pontiets. Y YM o'dd yn Ponthenri. 'Na le ddysges i i ddanso. O'n nhw'n pigo fi lan i droi cornel. Wir i ti.

**00.27.02: Ble o'dd y YM yn Ponthenri te?**

Hall. YM o'n nhw'n galw fe twel. A'r RAFA club mwy lawr 'na'r ysgol.

**Jiw, lle bach yw hwnna.**

Very, very. Shed! O'n i'n mynd fan'na.

**O'dd y gwaith ddim yn trefnu dim byd i chi? O'ch chi'n ca'l Christmas do ne' rwbeth fel 'na?**

O'n nhw'n neud dinners.

**Ym ble o'n nhw'n neud y dinners?**

Fi'n cofio, ethon ni lawr unweth, and I was so ashamed, so ashamed. Beautiful place. O'dd un o'r merched 'da ni ar y printo o'r Baltic, fi ffaelu cofio enw ddi nawr. Gladys y Baltic. Ti 'di clywed hi?

**Nadw.**

Ti rhy ifanc twel. Gladys y Baltic. O'dd family 'da ddi ar ochor Stepside fan'na. And they did Christmas dinner there and they had the most magnificent Christmas tree fi wedi gweld erioed. Lan is top y cyrten 'na wedwn ni. Decorated with decorations we'd never seen, all bought. Stripodd y merched e. Dwgon nhw nhw. I was ashamed that I was one of them. A wedes i ...yn y cantin dyle fod fucking gas arnoch chi bod chi wedi neud shwd beth. And they brought them back for her to take. Some of them. Ond meddyla. We had never seen decorations like that. None of us.

**00.28.44: Nagodd rhywun wedi gweld nhw'n mynd â'r stwff te.?**

Wel, I had for one. A Heather gyda fi, my friend ife. Not one of us did it. Ac o'n i'n wa'th off nag un o' nhw.

**Pam o'n nhw'n mynd â nhw, i gael iwso nhw gatre?**

Ie. Drinc twel. I couldn't get over it, I was ashamed. I was really ashamed.

**00.29.07: O'dd y gwaith wedi talu i chi fynd 'na?**

Na, na. Our own money that was. Fi'n cofio gweud 'tho Mami.

**Gethon nhw popeth nôl te, gethon nhw popeth nôl?**

Wel, gweda hanner e. Wel, ti'n gwobod beth yw e, o'dd hanner nhw wedi 'whalu erbyn bod nhw gatre. They were delicate, crystal ti'n gwobod. I was ashamed. A wedes i 'thon nhw, o'dd gas 'da fi bod fi'n un o chi, ac o'n i'n ddigon jiawlineb.

**Mae jiawlineb yn wahanol.**

Ma' jiawlineb a jiawlineb twel os e?

**O's. Beth o'n nhw'n gweud te, bod chi'n rhoi telling off iddyn nhw?**

'Pwy wyti ti'n meddwl wyt ti te?' That attitude ti'n gwobod. But I was ashamed.

**00.29.57: Shwd o'ch chi'n twmlo bod chi'n gwitho'n y ffactri? O'ch chi'n, chi'n gwbod o'dd yr arian yn dda, o'dd y cwmni'n dda, o'ch chi'n proud?**

Very, very proud. And it was all local girls twel, o't ti'n mynd i witho'n Morris Motors. O'n nhw'n bobman, ti'n deall fi.

**00.30.12: O'n nhw'n dod o bobman o'n nhw?**

O'n. Ond ddim 'da ni twel, only in this little village. Cwpwl o Bontiets, dim lot. O'dd lot o Bontiets 'na ar ôl i fi gwpla. Ponthenri o'n nhw fwya.

**00.30.24: O'dd dim whant arnoch chi fynd i rwle fel Morris Motors.**

Na, I never tried.

**Pam 'nny te?**

I thought they were rougher than us. 'Na'r feeling o'dd 'da fi, a why I don't know, my auntie worked there until she got married.

**Pam 'nny te, achos bod nhw'n bobol y dre?**

Ie, fwya twel.

**00.30.44: Pwy iaith o'ch chi'n siarad yn Ponthenri wedyn?**

Cymraeg. Ni i gyd, ond os o'n ni'n siarad â Buttle. Saes o'dd e twel. A o'dd lot o bobol yn siarad Saesneg â fi achos geso i i godi lan yn tŷ yn siarad Saesneg.

**00.31.05: Nethoch chi'r un job tra bod chi 'na?**

Naddo. O'n i'n gweud 'tho ti, dechreues i ar machine Maureen Rees, mynd rownd a joino pethe. A ethes i lawr un bore a dechreues i a ethes i i gytshon y machine ac o'dd yr earth wedi dod mas o'r plyg and I was thrown yards, a lando lan yn y dŵr. O'dd pump yn treial stopo fi i siglo. Un yn y go's 'na, un yn y go's 'na. Un yn y fraich hyn, a rhywun arall yn y fraich 'na a mam Sally, Edna yn cytshon 'yn gorff i, yn treial stopo fi i siglo ar ôl y sioc.

**00.31.39: Alle hwnna wedi lladd chi te?**

Os na fydden i wedi ca'l 'yn dwlu bydden i wedi. Achos o'dd styds 'da fi o dan y shoes. A da'th y dyn gatre â fi, a gas 'yn fam i ofon. She had a fright. Ethes i i'r gwely. Ac o'n i'n mynnu mynd nôl i'r gwaith y diwrnod ar ôl 'nny. Ne bydden i ddim wedi mynd. Ti'n deall fi, I wouldn't have gone back. I had such a fright.

**00.32.02: Ond o'dd bai arnyn nhw fanna bod hwnna wedi digwydd?**

Na, accident o'dd, the earth had come out of the plug o'n i'n doddi mewn. Safio'r machinery stopo, o'n i'n mynd rownd â'r machine hyn ar wheels i joino pethe lan iddyn nhw. I loved it. A machine wnïo twel. I loved sewing.

**00.30.21: O'ch chi'n, gwedwch chi, os o'ch chi'n moyn diwrnod off am rwbeth, gwedwch chi bod angladd neu rwbeth nawr, o'ch chi'n gallu mynd?**

Nobody went. No. Wel, o't ti'n colli arian.

**00.32.35: Beth am holidês wedyn 'nny, o'ch chi'n ca'l holidês?**

Pythefnos y flwyddyn, a Nadolig a Easter a normal ti'n gwbod. Stop week.

**O'dd stop week yn yr haf o'dd e?**

Ie, ie, ie. O'dd e ar gau.

**O’dd hwnna ‘run pryd â’r coliers?**

I think it was, I think it was. I think it was. Ti’n gwbod y normal ‘run peth â ma’ pawb yn ca’l heddi. Bank holiday, one day.

**O’ch chi’n ca’l ych talu am y Bank Holiday?**

No, no, no.

**Ma’ hwnna’n galed i ateb beth yw e heddi?**

Os nag o’s, gwranda nawr, I think we had basic. I think it was basic for one day. Basic pay which was very small. In those days, o’dd e yn. Iesu, na i gyd o’dd rhai yn byw arno.

**00.33.20: O’ch chi’n ennill arian da fan’na.**

Nage (dim ond) fi. Ten tables, twenty girls.

**Ond o’dd rhai’n jelys wedyn?**

Wel, walle o’n nhw.

**Achos o’dd arian yn bring o’dd e?**

O’dd e yn bring. O’dd e yn bring. I think there was three lots in the rwm top – the cutters, the machinists, I think it was those. O’n i ddim yn gyfarwydd iawn, I didn’t like it up the rwm top. I didn’t care for the girls lan ‘na.

**Pam ‘nny te?**

I don’t know. O’n i ddim yn gyfarwydd â nhw. Ti’n deall fi. O’n i ddim yn gyfarwydd â nhw.

**O’n nhw’n dod o rwle arall te?**

Na, Ponthenri i gyd jest. Y supervisors, menywod o Ponthenri o’n nhw. O’n i’n gyfarwydd â nhw, lovely ladies. Maggie Lewis, Mary Morris, nhw o’dd y dwy supervisor.

**O’n nhw ddim yn meddwl bod nhw’n well na chi te?**

O, nagon. And they were good. Good women, ti’n gwbod.

**00.34.22: O’n nhw’n gwbod beth o’n nhw’n neud te?**

O’n, o’n. Wel, o’n nhw wedi bod ‘na ‘ddar bod e wedi dechre. They built it up. O’dd y boys o’dd yn dod lawr o Birmingham yn gweud ‘tho ni. ‘They don’t work half as hard as you up there’. Ac o’n nhw’n ca’l lawer fwy o arian ‘na ni.

**00.34.40: Ond ceuon nhw hwnna dofe?**

Ceuodd nhw i gyd. Wel, ceuodd yr un yn Birmingham eniwê. We were open after them.

**O’ch chi’n ca’l unrhyw percs? Ar wahan i’r pai nawr, o’ch chi’n ca’l unrhywbeth fel discownt?**

O’t ti’n gallu pyrnu tableclothes yn cost. Y seconds. Ti’n deall fi. A ta beth o’n i ‘di printo o’n i’n pyrnu nhw pythefnos ar ôl ‘nny. By the time o’n nhw wedi mynd trw’r procedure i gyd nawr a mynd lan i’r rwm top ble o’dd y finishing. Ar y machino a’r separato. It was on one big roll twel. O’n i’n printo thirty six inch, forty five, fifty two seventy two tablecloth size.

**00.35.26: Fi wedi gweld un lliain gyda Glenda. Mae'n bert iawn.**

Beth o'dd e? Ti'n gallu cofio? O'n nhw'n mynd i bob gwlad.

**Sa i'n gwbod pwy seis o'dd e. Blode o'dd e.**

Wel ti'n gwbod nawr te, rhai Canada. O'dd 'yn frawd yn y Navy. A o'dd hon o'dd yn dod â wye i ni o Mynyddcerrig. 'O', wedodd hi, 'David sy' 'di dod nôl â hwnna o'r Navy twel, o le o'dd e wedi bod'. 'Nage, Nanette o Ponthenri,' medde'n fam. Wir i ti.

**Ma' nhw'n bert iawn. O'ch chi'n twmlo'n proud?**

Very. Very proud.

**Achos o'n nhw o quality da o'n nhw.**

They were. Cele ti ddim gwell yn unman. A o'n i'n gwitho fe mas.

O'n i'n pyrnu seconds of what I printed. O'n i'n allowo amser iddyn nhw i fynd lan i'r rwm top. So everything I was buying, a o'n i'n wherthin ar boi y fish. O'dd e'n watshan ni'n dod. 'Here's the girls with the big money coming' o'dd e'n gweud 'bytu ni twel. O'dd e'n gallu gwynto ni'n dod achos we smelt of thinners. Cla'u dy hunan lan ar ôl y paent. Iesu o'dd dy winedd di'n hell of a mess. A o'n i'n gweud 'tho fe, 'yes'. Ac o'n ni'n dala'r pacyn llien ford. 'This is my pay' wedes i tho fe. Buodd e ddim yn poeni fi ar ôl ni.

**O'dd boi y fish yn dod rown pyr'nny?**

Pentre, yn y pentre twel. Wel o'n i'n dod lan ac o'dd e still yn neud 'i rownds twel.

**Pan o'ch chi'n cerdded o'r gwaelod i'r top, i ddala'r bys ife?**

Yes.

**Ife fel 'na o'dd pobol yn gweld chi, fel merched â lot o arian?**

Well, yes I suppose. I suppose, ond o'dd e, y ffactri, o'dd e'n cownto bod pawb ar big arian ti'n deall fi. Dim ond y rhai yn y ffactri o'dd yn gwbod pwy o'dd ar big arian.

**00.37.13: O'n i'n siarad nawr ymbytu Undebau, Unions. Bydde neb wedi ca'l joino union.**

Na, it was a rule.

**Ond shwd o'ch chi'n twmlo? O'ch chi'n twmlo bod chi'n ca'l ych treto'n 'fair'?**

Well if you had a complaint you went to the office about it.

**So o'dd e'n direct, o'dd e?**

O'dd un merch yn siarad i ni, Marina, Marina Jones. She used to talk for us. She was good.

**So o'dd hi wedi dod i hunan 'mla'n mewn ffordd?**

Na, wel. She was representing us.

**Officially?**

Yes, but it wasn't her job. Just she was the speaker for us a Olive Lewis hefyd. We were a good gang. A good gang of girls. No arguments, no quarrelling. A dod di tair menyw gyda'i gilydd a ma' cwmpo mas. Meddyla di a bloody twenty two, na faint o fordydd o'dd. Ten tables, twenty ladies.



**O'ch chi ddim yn ca'l ambell i un od 'na ambell waith?**

We didn't put up with it. O't ti'n gweud yn streit wrthyn nhw. 'Tynn dy hunan 'da'i gilydd a bloody byhafia'.

**O'dd e'n gweithio?**

O'dd. I wasn't afraid of anybody anyway. O'n i fel 'na.

**Pan ethoch chi 'na gynta', o'ch chi ddim yn teimlo'n shei?**

I haven't got a shy bone in my body. Tri brawd, you've got no illusions. Ta beth o'dd yn rong arnot ti o't ti'n gw bod. O't ti'n ca'l dy alw ..... I love my brothers.

**00.38.48: Beth o'ch chi'n meddwl o'r conditions gwaith 'na te?**

O'dd rhai o'n nhw'n wael cofia.

**... achos o'ch chi'n siarad am y thinners, bod nhw'n gwynto, a bod pobol erill yn gallu gwynto nhw.**

O'n nhw'n gallu gwynto ni'n dod.

**Ond o'ch chi ddim yn gallu gwynto fe falle.**

Wel, o'n i'n gyfarwydd â fe'n y diwedd. A ti'n gw bod y stwff o'n ni'n iwso i gla'u 'yn dwylo, a'r paent o dan 'yn (winedd), o't ti'n doddi fe'n y bin and it was disintegrating. Raw bleach.

**O'dd ddim winedd hir 'da chi, o'dd dim winedd 'da chi?**

O'dd, o'dd 'winedd 'da fi. Yn lle mynd lawr o'n nhw'n cwrlo sha nôl.

**O'dd hwnna ddim yn iach iawn te.**

Na, na. But we were doing it. We weren't supposed to do it twel. Ble o'dd y boys yn bleacho'r material raw o'dd yn dod mewn, o'n i'n mynd mewn i ddwgyd bleach. Wel, o'n i'n dipo fe twel.

**I gael y paent off?**

Yes.

**O'ch chi ddim fod i neud hwnna?**

Na.

**Fel o'ch chi fod i gael e off te?**

Ti'n gw bod beth o'n i'n neud? Mami'n doddi tywelion yn y bath, nage tywelion, blancedi yn yr haf, 'leave them be Mami, I'll do them when I come home'. O'dd Mami'n fyr, fyr and quite fat. Nawr o'dd Mami ffaelu pwyso dros y bath, 'you leave them for me and I'll do them when I come home'. A o'dd hi mor bles. Ar ôl i fi fynd fan'na gas hi washer. She couldn't afford those things before that.

**00.40.08: Beth o'ch chi'n gwishgo fan'na te?**

Fi gas y pâr jeans cynta' yn y Valley hyn. No.7s o'r Navy. Ti'n gw bod y boys ar y llonge, they had No.7s, ti'n gw bod y naval suit, denim No.7s o'dd gyda nhw i glanhau'r decs. A Jew yn galw'n 'da'n fam, 'I'll bring things for her, trousers for her to go to work. Good things, Dory,' wedodd e. A fi o'dd â'r pâr cynta. A o'dd pawb yn moyn e.

**O'ch chi wedi dechre trend newydd.**

Wel, o'n nhw ddim wedi gweld nhw. That's when jeans came.

**00.40.45: Beth o'ch chi'n gwishgo ar y dechre te, sgert?**

Ie, whatever. Trwser. I've always lived in trousers. Trwser.

**O'ch chi'n gorfod gwishgo overall wedyn?**

Os o't ti'n moyn. Os o't ti'n moyn safio dy ddillad.

**O'n nhw ddim yn rhoi hwnna i chi?**

No issue, no issue at all.

**00.41.06: O'dd unrhyw rules yn y ffactri? Unrhyw reole. Achos gyda defnydd fel 'na, material 'na, o'dd popeth ffael bod yn frwnt o'dd e? Chi'n gwbod beth wy'n feddwl, o'dd rhai ffactris yn frwnt o'dd e?**

Paent o'dd y dye twel. Os o'dd fingermarks, os o't ti'n ca'l paent, o'dd rhaid i ti'i g'lau fe. A ti 'di gweld yn y llunie, ti'n gwbod pieces o material o'n i'n printo, o't ti'n gallu ca'l the odds and ends i ddodi rownd i ti ar ben. Ti'n gallu gweld e'n y llun.

**O'ch chi'n neud e ych hunan wedyn.**

O'dd pishys o stwff o dan y ford, ford hir o't ti'n printo arno.

**Ond o'dd e'n frwnt 'na, gwedwch y llawr?**

Well, yes it did because of the paint, the dye. O'dd e'n sarnu twel.

**00.41.50: Beth am y toilets a llefydd fel 'na?**

Spotless. Spotless. Canteen, spotless.

**00.41.55: O'dd cantîn 'na o'dd e?**

O'dd. Ffactoris fan 'na. O't ti'n croesi wedyn a o'dd cantîn fan'na yn y ffrynt, a o'dd offis ar 'i ochor e.

**00.42.03: Shwd beth o'dd y bwyd yn y cantîn?**

No food there. O't ti'n dod â bwyd dy hunan.

**Fi'n gweld.**

Dim ond te. Ac os o't ti moyn rhwbeth wedi'i neud, o'dd hi'n neud e i ti. Tin o baked beans neu whatever.

**00.42.18: O'ch chi'n mynd â sangwej ne rwbeth te?**

O'n, o'n. Ond o'n i'n ishte 'da'r bois. Wel, o'n i'n gwitho 'da'r bois ar y start twel. Safio ni stopo'r machines. So I got, came into them. Tony Lewis, ti'n nabod Tony Lewis?

**Fi'n cofio Tony Lewis.**

A beth. O'dd hi'n gwitho 'na. A hi o'dd yn pwyso, a paco stwff o'dd yn mynd abroad.

**00.42.42: O'dd lot o dynnu co's 'na te? Jocan?**

O'dd. O'dd lot o sbri 'na. We worked hard. A o'dd hi'n doddi node mewn, o'dd y merched â pen friends all over the world. Yn ca'l 'u doddi mewn yn y tablecloths.

**00.42.52: O'n nhw fod i neud hwnna te?**

Nagon. Nobody knew about it. Nobody suffered.

**Beth o'n nhw'n doddi ar y node te?**

Address a 'write back to me'. O'n nhw'n ysgrifennu i pen pals ti'n gwbod.

**00.43.07: Pwy o'dd yn ysgrifennu nôl te?**

Sa i'n cofio pwy o'dd yn neud e i gyd, ond a few of them did do it.

**Nethoch chi fe?**

Naddo i. I didn't want it. I had a pen pal once a werthes i ddi. O'n i moyn rhwbeth o'dd 'da rhywun arall, trwco. Trwco, ti'n gwbod trwco?

**00.43.28: O'dd lot o sŵn 'na?**

Machines achan. Duw, Duw o'dd lot o sŵn 'na.

**O'ch chi'n gwishgo rhwbeth am y clustie, wedyn?**

Nagon. We never had anything for anything, we didn't have any clothing or nothing, nor gloves, nothing. Nothing.

**Os unrhyw part o'r gwaith o'r gwaith 'na wedi effecto chi, chi'n credu?**

Sa i'n credu. Gwynegon falle, achos o'dd hi'n o'r 'na.

**O'dd hi?**

Wel, ti'n gwbod o't ti'n printo beth o'dd yn mynd lan. O'dd heaters wedyn 'nny yn y ceiling twel, yn sychu'r tablecloths. O'n nhw fel 'na ar y tô, lan. Ti'n gwbod fel airing line 'da pawb, yn y tai. But we had so many twel dofe.

**00.44.16: Os o'dd lot o sŵn 'na o'ch chi'n gallu siarad?**

O'n, o'n.

**O'ch chi'n ca'l siarad?**

O'n. As much as you wanted. What we did. Different partners (?) I can't answer for. Very easy going.

**Beth o'ch chi'n siarad ymbytu te?**

Popeth. Dawnsio. Fan'na dysges i i ddansio yn y cloak room. A troi rownd. O'n i'n gallu danwo'n streit. O'n i ffaelu mynd rownd cornel. I loved it. I loved it. I wouldn't have missed it for the world. I broke my heart when I had to finish.

**00.44.48: Pam gwploch chi te?**

Farwodd 'yn fam. Well, she went ill. Des i gatre. Wedes i 'tho Buttle, 'I'm going to have to take lots of time off'. Os na ddododd e fi ar y towelling, fi a Heather ar y towelling yn dechre off 'na. 'And if you only do one piece a day Nanette, as long as it's perfect'. 'Right', wedes i. 'I'll do my best'. Ac o'dd e'n gwbod 'na. A bydde fe ddim wedi doddi fe 'na. Ond, o'n i'n ca'l large basic pay. 'I don't want to go without less money wedes i 'tho fe'. 'Na pham ethes i 'na cynta', i'n fam gael fwy o arian ife. Oce, and that was arranged. But it was beautiful, it was beautiful. A ti'n gwbod towelling, ti'n gwbod y plysh, os o'dd un pishin yn hirsch, o'dd e ddim yn cymryd y dye, so you had to be very careful. O't ti'n gorfod dishgwl lawr, ac o't ti'n gorfod torri fe â siswrn i fe ca'l bod yn even fel carpeting ti'n gwbod.

**00.45.45: Beth o’dd yn bod ar ych mam te?**

Kidneys. She died of that. 40.

**O’dd hi’n ifanc o’dd hi?**

Very, very young.

**O’dd hi wedi bod yn dost ers sbel?**

Naddo, not that long.

**00.46.00: O’ch chi’n gwbod taw kidneys o’dd e?**

‘Sa nawr. ‘Sa nawr. Leukaemia my mother died of. ‘Sa nawr. Beth wyt ti’n ca’l ar dy kidneys?

**Ti’n gallu ca’l fel kidney disease.**

Ma’n frawd i wedi ca’l e’n Australia. And we didn’t know that’s what my mother died of until my brother had it and sent for Mami’s death certificate, wrth ‘yn frawd. Beth o’dd e’n galw fe nawr? Leukaemia. O’dd Dadi’n gweud ‘tho i, a ma’ fe still ‘da fi lan fan hyn. She died of bad kidneys. ‘Na beth wedodd e ‘tho ni. Os o’n i’n ddigon o fenyw i garco fe a’n frodyr, so ti’n credu o’n i’n ddigon o fenyw i ga’l y gwir. Don’t you think so? Se fe’n byw heddi, gwranda ‘ma. Dim ond fi o’dd yn cwmpo mas â fe. Dim cwmpo mas â fe. I couldn’t keep this shut twel. ‘Now, listen Dadi, I’m not cheeking you, but..’

**00.47.00: O’ch chi’n gweld ych mam yn mynd yn dost, a o’ch chi’n gwitho fanna.**

No, it didn’t happen like that. She just went like that. It did.

**O’dd hwnna’n sioc te, o’dd e?**

Nago’dd e jyst. Yes. O’n i gartre ac o’dd ffliw arno i. A ffaeles i fynd nôl i’r gwaith. She died as well, not long after it. Ac o’n i’n torri’n galon bod fi’n gorfod rhoi’r gwaith lan. Ond o’dd y family’n dod gynta’ twel o’dd e.

**So o’ch chi’n rhoi gwaith lan i gael carco.**

